

ARGRAFFIADAU MEWN TAFARN gan Draenog

Gwelir llawer o bethau yn y dafarn. Mae pobl yn boddi eu galar. Mae dysgwyr yn gwneud eu gwaith cartre. Mae dynion a menywod yn chwilio am ei gilydd. Mae rhai bobl eraill yn chwilio am eu dewrder nhw ar waelod y botel. Eu nerth, eu hamcan. Eu heddd. Mae pawb wedi cael eu gweld. Ond, bydd pobl yn chwarae gêmiau weithiau, hefyd—neu'n edrych ar y gêmiau ar y teledu. Maen nhw'n dathlu eu buddugoliaeth. Maen nhw'n gwenu; maen nhw'n neidio o gwmpas. Mae rhai bobl yn y dafarn yn hapus. Mae'r dafarn yn cynnwys llawer o fydoedd.

*Sosban fach yn berwi ar y tân,
Sosban fawr yn berwi ar y llawr,
A'r gath wedi sgrapo Sioni bach.*

Clywir llawer o bethau yn y dafarn, hefyd. Mae'r llwncdestunau'n cael eu cynnig. Mae'r caneuon yn cael eu canu. Mae tafarnau'n siarad mewn llawer o ieithoedd. Mae'r peintiau yn llifo, yn llifo—un, ac un arall, ac un arall. Efallai fod y tafarnau mewn gwlad yn celwydda—ond, ymddangosir y rhan fawr ohonyn nhw'n celwydda'n wael. Y gwir sydd yn eu caneuon nhw. Mae pawb yn gallu ei glywed. Mae tafarn yn canu gan lawer o leisiau ond, mae hi'n caru gan ddim ond un galon.

*O rwy'n ei charu hi, o rwy'n ei charu hi
Yr eneth ar lan y môr.
O rwy'n ei charu hi, o rwy'n ei charu hi
Yr eneth ar lan y môr.*

Gadawodd fy hynafiaid o Gymru i ffeindio gwaith—i ffeindio eu dechreuad newydd nhw. Ond, collon nhw lawer o bethau eraill. Dw i'n dysgu iaith y nefoedd nawr, yn gobeithio i adfer y pethau ar goll. Mae Cymru'n gobeithio am adferiad, hefyd—yn gobeithio, ac yn gweithio. Gobaith a gwaith gyda'i gilydd: Gan enw arall, ffydd.

*Calon lân yn llawn daioni
Tecach yw na'r lili dlos.
Dim ond calon lân all ganu
Canu'r dydd a chanu'r nos.*

Es i ar daith i'r Senedd. Teimles i'n gryf iawn yr arddangosodd yr adeilad y Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r ffydd hardda. Mewn gwirionedd, efallai fod llywodraeth yn ein siomi ni. Efallai ei bod hi'n ein bradychu ni. Er hynny, bydd ein ffydd ni'n parhau. Ffydd y dynion da sy'n gwneud cyfiawnder. Dynion cyffredin. Y dynion sy'n canu yn y dafarn.

*Arglwydd dyma fi, ar dy alwad di;
Canna'm henaid yn y gwaed
A gaed ar Galfari.*

Cymru: Dw i'n ei charu hi ond, dyw hi ddim fy nghartref. Er hynny, Cymru yw cartref fy hynafiaid, ac felly mae'r cartref yn rhan ohonaf. Fy mod yng Nghymru unwaith eto...yn gwrando ar gerddoriaeth...yn yfed y peintiau...yn canu, yn chwerthin, yn gwenu...Sut ffeindiaf i'r geiriau i wagio fy nghalon?

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi.